

Bevris Support Ltd



Prospect House, Factory Road, Glannau Dyfrdwy, CH5 2QJ



01978851576



www.bevris-support.com

Dyddiad yr ymweliad
arolygu / Dyddiadau'r
ymweliadau arolygu:

Cynhaliwyd yr ymweliadau arolygu blaenorol ar gyfer y
gwasanaeth hwn rhwng 29/09/2025 a 15/10/2025

Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

Gweithredir gan:

Bevris Support Ltd

Math o Ofal:

Gwasanaeth Cymorth Cartref

Darpariaeth ar gyfer:

Byw â Chymorth

Lleoedd cofrestredig:

0

Prif iaith/ieithoedd:

Cymraeg a Saesneg

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant
Cymru:

Mae'r darparwr yn hyrwyddo, yn rhagweld, yn nodi ac yn
diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl.

Graddau:



Llesiant

Rhagorol



Gofal a Chymorth

Rhagorol



Arweinyddiaeth a
Rheolaeth

Rhagorol

Crynodeb:

Mae Bebris Support yn darparu gofal a chymorth i bobl sydd ag amhariad corfforol a/neu amhariad gwybyddol sy'n byw yn eu cartref eu hunain neu yng nghartref eu teulu, i'r henoed, ac i bobl eraill y mae angen gwasanaeth gofal cartref arnynt. Mae darparwr y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r bobl a'u teuluoedd i ddarparu gofal a chymorth sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n diwallu anghenion pob unigolyn.

Mae'r staff cymorth yn adnabod y bobl yn dda ac yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r bobl a'u perthnasau, sy'n hybu annibyniaeth a hyder y bobl. Drwy gydweithio'n agos, gallant gefnogi'r bobl i gyflawni canlyniadau llesiant uchelgeisiol. Mae'r staff cymorth yn cael hyfforddiant craidd ac arbenigol cynhwysfawr ac o ganlyniad gallant ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth rhagorol. Mae tîm rheoli cryf ac Unigolyn Cyfrifol yn arwain y gwasanaeth. Maent yn adolygu'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig i bob unigolyn yn gyson, gan ystyried yr hyn sy'n gweithio'n dda ac ymdrechu i wella'r gwasanaeth a ddarperir o ddydd i ddydd yn barhaus. Mae prosesau archwilio cadarn yn sicrhau bod gwasanaeth rhagorol yn cael ei ddarparu'n gyson.

Canfyddiadau:



Llesiant

Rhagorol

Ceir ymrwymiad neilltuol a chlr gan bob arweinydd ac aelod o staff i wrando'n astud a chefnogi'r bobl i wneud dewisiadau gwybodus iawn. Mae'r dull effeithiol iawn hwn yn galluogi'r bobl i gymryd rheolaeth dros eu bywydau â hyder a sicrwydd. Mae darparwr y gwasanaeth yn meithrin cydberthnasau cadarn a llawn ymddiriedaeth â'r bobl a'u teuluoedd. Mae'r staff cymorth yn cydweithio â'r bobl a'u teuluoedd i sicrhau bod yr unigolion yn cael cymorth yn unol â'u dymuniadau a bod y cymorth hwnnw yn hybu ac yn datblygu eu hannibyniaeth cymaint â phosibl. Maent yn cydnabod mai'r bobl a'u teuluoedd yw'r arbenigwyr o ran eu hanghenion gofal a chymorth ac maent yn sicrhau y cânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau, gan ddilyn arweiniad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol. Mae'r dull cadarn hwn yn galluogi'r bobl i gyflawni canlyniadau llesiant uchelgeisiol. Mae'r staff cymorth yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom eu bod yn hyderus ac yn gallu ymlacio yn eu cwmni, gan ofyn iddynt am sicrwydd pan fydd ei angen. Mae'r bobl a'r perthnasau yn cymryd rhan yn y broses o recriwtio staff, gan sicrhau bod y staff cymorth yn cael eu paru â'r unigolyn y maent yn ei gefnogi. Rhoddodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw adborth rhagorol ar y gwasanaeth, gan ddweud "*The best agency we have ever worked with*" a "*We are 100% happy.*"

Caiff y bobl eu grymuso i ffynnu, gyda nifer o gyfleoedd i gynnal a datblygu eu diddordebau, eu cryfderau a'u sgiliau. Maent yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau o'u dewis yn y gymuned leol, gan gynnwys cyfleoedd i gwrdd a chysylltu â theulu a ffrindiau, dysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd orau ganddynt. Gwnaethom gwrdd â phobl a oedd wedi gallu mynd ar eu gwyliau annibynnol cyntaf gyda'u staff cymorth yn eu helpu. Mae darparwr y gwasanaeth yn trefnu digwyddiadau chwarterol i'r bobl, y perthnasau a'r staff fynd iddynt. Mae'r rhain wedi cynnwys partïon Nadolig, teithiau allan i barciau gwledig lleol, gan gynnig cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol, cymdeithasu a siarad yn anffurfiol â'r staff cymorth a'r tîm rheoli am y gwasanaeth. Caiff y bobl eu cynnwys mewn dathliadau; caiff wyau Pasg ac anrhegion Nadolig eu rhoi iddynt a chawsant eu cynnwys wrth ddylunio cerdyn Nadolig y gwasanaeth. Maent yn cael cylchlythyr rheolaidd sy'n llawn ffotograffau yn dathlu'r digwyddiadau hyn a chyflawniadau'r bobl. Caiff anghenion y bobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru eu deall a'u diwallu. Mae aelod o'r tîm rheoli yn siarad Cymraeg yn rhugl a phe gofynnwyd am wasanaeth yn Gymraeg, byddai aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn cael ei recriwtio ar gyfer yr unigolyn. Gellir darparu dogfennau yn Gymraeg hefyd.



Mae'r darparwr yn casglu gwybodaeth fanwl iawn gan weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sydd eisoes yn ymwneud â gofal y bobl, er mwyn penderfynu a all ddarparu gwasanaeth. Mae'n gosod gwerth uchel iawn ar ei sgysiau cychwynnol â'r bobl a'u perthnasau i feithrin cydberthnasau cryf â nhw. Mae'n gweithio'n agos â pherthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill ac ar y cyd â nhw ac yn defnyddio ei arbenigedd i asesu'r dull gorau o gefnogi pobl ag anghenion cymhleth. Dywedodd un gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol y gwnaethom siarad ag ef wrthym fod y gwasanaeth wedi arwain y broses o ddarparu gwasanaeth i unigolyn newydd yn effeithiol, gan ddefnyddio ei arbenigedd a'i wybodaeth. O ganlyniad i'r dull gweithredu hwn, llwyddwyd i ddarparu pecyn llwyddiannus.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth eithriadol gan eu bod yn cael eu cynnwys yn sylweddol yn y broses gynllunio, a bod y gwasanaeth yn ymgynghori â pherthnasau lle nad yw'r bobl yn gallu cyfrannu eu hunain. Mae cynlluniau personol y bobl yn fanwl iawn ac yn canolbwyntio i raddau helaeth ar yr unigolyn. Maent yn nodi'n glir yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain, sy'n galluogi'r staff cymorth i hybu eu hannibyniaeth cymaint â phosibl. Mae gan y bobl gynlluniau cyfathrebu trylwyr ar waith, a chynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a manwl. Mae'r rhain yn nodi sut y gellir helpu'r bobl i aros ar eu llinell sylfaen, a sut y dylai'r staff cymorth ymateb os byddant yn cynhyrfu neu'n mynd yn bryderus. Mae protocolau ac arferion dyddiol clir ar waith, sy'n gwneud dewisiadau'r bobl yn glir ac sydd hefyd yn unol ag unrhyw asesiadau risg ar gyfer cadw'r bobl yn ddiogel rhag niwed. Caiff y cynlluniau personol a'r asesiadau risg eu hadolygu'n rheolaidd a chânt eu diweddarau os bydd newid. Ar gyfer pobl ag anghenion iechyd cymhleth neu barhaus, mae'r staff bob amser yn ceisio gwella'r gofal, y driniaeth a'r cymorth drwy nodi'r ymarfer diweddaraf sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'i roi ar waith. Mae'r cyfarwyddwr clinigol yn ystyried effaith gwahanol ffactorau ar ymddygiad y bobl, gan gynnwys problemau iechyd neu eu gweithgareddau dyddiol, er mwyn monitro a oes cysylltiad rhwng y problemau hyn a'u hymddygiad a'u hwyliau. Mae hyn yn ei helpu i nodi a ellir gwneud unrhyw welliannau eraill i'r gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu. Dywedodd perthnasau wrthym fod ganddynt lawer o hyder yn y dull hwn.

Caiff y bobl eu cadw'n ddiogel diolch i ddull diogelu hynod gadarn. Mae protocolau clir a manwl ar waith i'w dilyn er mwyn rheoli unrhyw risgiau. Mae'r asesiadau risg yn gadarn ac yn cael eu hadolygu mewn ymateb i unrhyw newidiadau. Dywedodd gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol y gwnaethom siarad ag ef wrthym fod darparwr y gwasanaeth yn dda iawn o ran nodi unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon ac ystyried beth y gellid ei wneud yn wahanol. Dywedodd wrthym ei fod yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol eraill i reoli a lleihau risgiau.



Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau rhagorol gan fod gan y darparwr ymrwymiad cryf iawn i sicrhau bod niferoedd uchel o staff eithriadol o fedrus a gwybodus yn y gwasanaeth bob amser. Caiff staff cymorth eu recriwtio a'u paru i ddiwallu anghenion unigol y bobl. Mae aelodau newydd o staff yn destun gwiriadau recriwtio priodol; gwelsom dystiolaeth fod geirdaon yn cael eu gwirio a bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu cynnal. Mae'n ofynnol i'r staff cymorth gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r staff yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwyllo rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant arbenigol yn ôl yr angen er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r hyfforddiant ymddygiad cadarnhaol ac arferion cyfyngol y mae'r staff cymorth yn ei gael yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion unigol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r cyfarwyddwr clinigol wedi cael hyfforddiant i ddarparu'r hyfforddiant hwn ac mae holiadur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn pennu sut y caiff pob cwrs ei strwythuro i ddiwallu anghenion pob unigolyn. Mae'r bobl a'u perthnasau yn mynychu'r hyfforddiant hwn ar gefnogi ymddygiad yn gadarnhaol er mwyn gallu deall eu profiad bywyd nhw. Dywedodd y perthnasau y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod gallu'r cyfarwyddwr clinigol i ddeall anghenion y bobl wedi gwneud cryn argraff arnynt. Gwnaethant ddweud wrthym ei bod "*Like a dream*" a'i bod bob amser ar gael yn y cefndir i helpu'r staff â'i harbenigedd pan fydd angen. Caiff y staff cymorth eu gwerthfawrogi'n fawr gan y gwasanaeth, a chaiff dyddiadau arbennig a'u pen-blwyddi eu cydnabod yng nghylchlythyr ac yn ystod seremonïau gwobrwyo'r gwasanaeth er mwyn cydnabod eu gwaith caled. Rhoddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw adborth cyson gadarnhaol ar y gwasanaeth. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*It is the best company I have ever worked for.*"

Mae gan y bobl lefelau uchel o hyder yn narparwr y gwasanaeth am fod arweinwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod diwylliant cryf a chadarnhaol iawn sy'n gefnogol, cynhwysol a pharchus. Mae darparwr y gwasanaeth yn cydweithio â'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'n dangos diddordeb yn y cymorth a ddarperir, ac mae'n awyddus i archwilio ac ystyried unrhyw opsiynau i wella'r gwasanaeth. Ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, caiff archwiliadau unigol o'u gofal a'u cymorth eu cwblhau sy'n galluogi'r rheolwyr i ystyried patrymau a thueddiadau ac addasu'r pecyn gofal a chymorth i ddiwallu anghenion y bobl yn well. Mae'r rheolwyr hefyd yn ystyried y cynnydd y mae'r bobl yn ei wneud tuag at gyflawni eu canlyniadau fel rhan o'r archwiliad. Maent yn cwblhau adroddiadau wythnosol sy'n cael eu hystyried mewn cyfarfod rheoli â'r Unigolyn Cyfrifol, lle caiff unrhyw addasiadau a gwelliannau i becynnau gofal a chymorth eu trafod yn barhaus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn chwarae rhan amlwg yn y gwasanaeth, gan roi cymorth i'r tîm rheoli. Mae'n sicrhau ei fod yn siarad â detholiad o'r bobl a'r staff i gael eu barn fel rhan o'i rôl. Mae'n llunio adroddiadau bob tri mis ar ei ymweliadau ac adroddiadau ar ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r rhain yn ystyried a ellir gwneud unrhyw welliannau a lle caiff enghreifftiau eu nodi, cânt eu cofnodi'n glir gan gynnig tryloywder a'r gallu i'w

holrhain. Mae'r adroddiadau ar ansawdd y gofal yn rhoi'r bobl wrth wraidd y gwasanaeth, gan ystyried eu hadborth a'u barn.

Meysydd i'w gwella a nodwyd

Pan fyddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ac nad ydym wedi canfod bod risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl, byddwn yn tynnu sylw at y rhain gyda'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, rydym yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.

Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.

Cewch ddefnyddio ac aildddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a phheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.